# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd ar Zoom nos Lun 10ed Ionawr 2022

Presennol: Alan Hughes, Gareth Jones, John Davies, Alyn Williams, Terry Huws.

Ymddiheuriadau: Sian Parry

1. Cadeiriwyd gan Alan Hughes (ar teams) ac estynnodd groeso i bawb.
2. Derbynwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Sedd Wag -** Penderfynwyd aros am tan fis Chwefror gan fod Cynghorydd oedd yn absennol heno wedi crybwyll enw mis diwethaf.
   b. **Y Gronfa Datblygu Cynaladwy** – O ganlyniad i'r Clerc gyflwyno'r syniadau derbyniodd ebost gan Morus Llwyd Dafydd yn egluro fod y gronfa wedi cau am eleni ond y bydd yn ail agor ar 1af Mawrth – penderfynwyd ail gyflwyno'r syniadau'r adeg hynny.
   c. **Gor yrry ar lon y ysgol Tudweiliog** – Bu i'r Cadeirydd ymweld â'r safle hefo Chris Brady yn ystod oriau'r ysgol, ni welwyd gôr yrry yn ystod yr ymweliad hynny. Ni chafwyd ymateb gan swyddog yr Adran Priffyrdd. Bydd y mater yn cael ei drafod eto mis nesaf.

4. Gohebiaeth:
   **a. Ebost Martyn Huws –** Derbyniodd y Clerc ebost gan Martyn Huws yn datgan ei ddymuniad i blannu coed ar hyn y llain agored o dir wrth ochr lon fawr wrth adael pentref Tudweiliog am Gwyndy cyn troead lon i Minafon/Tyddyn Mawr. Pwrpas hyn fyddai i annog mwy o fywyd gwyllt megis genyn ac adar bach ac i wella

bioamrywiaeth yr ardal. Gofynna Martyn Huws gan bwy y cai gainatad i wneud hyn.
Daeth yn amlwg drwy drafod nad penderfyniad y Cyngor Cymuned yw hyn ond Cyngor Gwynedd. Bydd y Clerc yn cysylltu â Martyn Huws i'w gynghori i gysylltu â'r adran Priffyrdd a Cynllunio.

b. **Biniau Halen –** Derbyniwyd ebost gan yr Adran Priffyrdd yn datgan na fydd cost o lenwi biniau halen y gymuned o hyn ymlaen.
c. **HSBC –** Derbyniodd y Clerc ebost gan y banc yn ei gwybyddu y bydd tal o £5.00 y cyfrif yn cael ei dynnu'n fisol o hyn allan. Bydd hefyd cost ychwanegol am bod 'transaction' (e.e newid sieciau) fydd yn digwydd o fewn y cyfrifon (fyddai dim pe byddai'r Cyngor yn newid i weithredu taliadau ar lein). Bydd y mater yn cael ei drafod eto mis nesaf.

**5. Unrhyw fater arall:**

a. Derbyniodd y Clerc sylwadau yn datgan fod dwr yn parhau i hel mewn mannau ar y lon o Edern i Dudweiliog er y gwaith cynnal ac agor ffosydd a gymerodd le dros yr wythnosau diwethaf. Doedd yr un Cynghorydd wedi sylwi ar hyn, bydd pawb nawr yn cadw golwg gan adrodd yn ôl os bydd problem pyllau dwr yn datblygu dros y Gaeaf.
b. Gofynnodd y Clerc am ganiatâd i brynu mwy o'r Cardiau Post y mae'n anfon wrth bostio cyfraniadau at wahanol achosion. Roedd pawb yn cytuno.
c. Derbyniwyd ymholiad ynglŷn â gwaith sy'n mynd ymlaen ar Gladwr Tudweiliog – bydd y Clerc yn cysylltu ar adran Gorfodaeth gan ofyn iddynt hwy ymweld ar safle.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 14eg Chwefron 2022 am 7.30yh